Prifysgol Caerdydd

Ffurflen Gais Ôl-raddedigion

Nodiadau Cyfarwyddyd (ceisiadau ar bapur)

Cyffredinol

Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn i'w defnyddio gyda ffurflen "Cais am Le fel Myfyriwr Ôl-raddedig". Dylai pawb sy'n gwneud ceisiadau ar bapur am gwrs ôl-raddedig a addysgir a graddau ymchwil yng nghampws Parc Cathays a champws y Mynydd Bychan Prifysgol Caerdydd gwblhau'r ffurflen hon.

Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y ffurflen gais yn cael ei defnyddio i ystyried eich cais ac, os cynigir lle i chi, i wneud trefniadau ar gyfer eich derbyn. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu i ddewiswyr cwrs perthnasol a staff gweinyddol eraill sy'n gyfrifol am recriwtio a derbyn myfyrwyr. Byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi darllen y Prosbectws Ôl-raddedig neu'r llyfryn Ysgol briodol cyn cwblhau'r ffurflen gais. Rhowch wybod i ni os nad ydych wedi derbyn digon o wybodaeth i allu llenwi'r ffurflen gais. Neu, cysylltwch â'n gwefan yn **www.caerdydd.ac.uk/postgraduate**

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o'i harferion a'i gweithgareddau, gan gynnwys y rhai hynny sy'n berthnasol i recriwtio, dethol a mynediad myfyrwyr. Nod y Brifysgol yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n croesawu ac yn sicrhau cyfle cyfartal i ymgeiswyr o bob oed, ethnigrwydd, anabledd, strwythur teuluol, rhyw, cenedl, tueddfryd rhywiol, hil, crefydd neu gredo arall, a chefndir economaidd-gymdeithasol arall. Mae'r ymrwymiad hwn yn ffurfio rhan o'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd i'w gael ar ein gwefan yn **www.caerdydd.ac.uk**.

Mae'r ffurflen wedi'i rhannu'n sawl adran, a dylech ei llenwi'n glir mewn priflythrennau ac inc **du**.

- Rhan 1: Y Rhaglen Ôl-raddedig Arfaethedig
- Rhan 2: Manylion Personol
- Rhan 3: Cymwysterau Academaidd a Phroffesiynol
- Rhan 4: Gwybodaeth am Gyflogaeth
- Rhan 5: Ariannu
- Rhan 6: Ymgeiswyr nad ydynt o'r DU ond sy'n byw yn y DU ar hyn o bryd
- Rhan 7: Datganiad Personol
- Rhan 8: Sgiliau Cymraeg/Saesneg
- Rhan 9: Geirda Cyfrinachol
- Rhan 10: Sut cawsoch wy bod am gyfleoedd ôl-raddedig Prifysgol Caerdydd?
- Rhan 11: Datganiad

Adran 1 Y Rhaglen Ôl-raddedig Arfaethedig

1.1 Nodwch yr Ysgol yr hoffech astudio ynddi.

1.2 Ymgeiswyr cyrsiau a addysgir - ticiwch y bocs sy'n cyfeirio at y rhaglen ôl-raddedig yr hoffech ei hastudio. Os ydych am ymgeisio am raglen nad yw ar y rhestr, nodwch hyn yn y lle a ddarparwyd. Nodwch hefyd union deitl y rhaglen a addysgir yr ydych yn gwneud cais amdani. Bydd hyn yn sicrhau

bod eich cais yn cael ei ystyried gan y tiwtor(iaid) derbyniadau perthnasol ac yn helpu i atal oedi. Defnyddiwch deitl y cwrs fel mae wedi'i nodi yn y Prosbectws Ôl-raddedig.

Ymgeiswyr ymchwil - ticiwch y bocs sy'n cyfeirio at y radd ymchwil yr hoffech ei hastudio. Nodwch hefyd y pwnc neu'r maes ymchwil arfaethedig, neu enw'r grwp/grwpiau ymchwil y mae gennych ddiddordeb ynddynt. Nodwch y grwp ymchwil trwy ddefnyddio'r teitl a roddir yn y Prosbectws Ôl-raddedig cyfredol. Os nad ydych yn siwr pa ysgol academaidd neu grwp ymchwil sy'n briodol, gallech ddefnyddio cronfa ddata chwilio cyrsiau (Course Finder) yn **www.caerdydd.ac.uk/postgraduate**. Os ydych am astudio am Ddoethuriaeth Broffesiynol, ticiwch y bocs perthnasol. Bydd angen i ymgeiswyr ymchwil gwblhau Cynnig Ymchwil* hefyd. Mae rhagor o fanylion ar ddiwedd y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

1.3 Defnyddiwch y bocs gwirio i nodi a ydych yn bwriadu astudio'n amser llawn neu'n rhan-amser. Mae rhai cyrsiau ar gael fel cyrsiau amser llawn yn unig; mae eraill ar gael yn rhan-amser yn unig. Edrychwch yn y Prosbectws Ôl-raddedig os nad ydych yn siwr.

1.4 Nodwch y mis a'r flwyddyn yr hoffech chi ddechrau astudio. Mae mwyafrif ein cyrsiau Athro a Diploma yn dechrau ym mis Medi bob blwyddyn. Gwiriwch pryd mae'r cwrs yr ydych yn gwneud cais amdano yn cychwyn drwy edrych ar wybodaeth mynediad cwrs unigol yn y Prosbectws Ôl -raddedig. Os ydych yn ymgeisio am MPhil/PhD, gall y rhain ddechrau ar 1 Hydref, Ionawr, Ebrill neu Orffennaf, gyda chytundeb yr Ysgol berthnasol.

1.5 Os ydych yn aelod o staff Prifysgol Caerdyff, ticiwch y blwch a rhowch eich rhif adnabod personal staff (gallwch gael hwn o'ch slip cyflog). Rhaid i ymgeiswyr sy'n staff o Brifysgol Caerdydd gwblhau ond adrannau 1,2,3.1,5 ac 11 o'r ffurflen gais; does dim angen iddynt gyflwyno datganiad personol na geirdaon.

Adran 2 Manylion Personol

Enw olaf
Bydd eich ffeil yn cael ei chofrestru dan yr enw hwn a dyma'r enw dylech chi ei ddefnyddio ar unrhyw ohebiaeth â ni yn y dyfodol. Gofalwch mai dyma'r enw ar eich trawsgrifiadau, geirdaon a'ch pasport i osgoi dryswch. Os oes gennych gyfenw blaenorol nodwch hwnnw hefyd, er enghraifft os ydych wedi priodi neu wedi cael ysgariad.

Enw/enwau cyntaf
Nodwch eich holl enwau cyntaf yn y drefn maent yn ymddangos ar ddogfennau swyddogol. Nid yw llythrennau cyntaf yn ddigon. Gallwch nodi hyd at dri enw. Gwnewch yn siwr fod yr holl enwau hyn yn cyfateb i'r enwau ar eich pasport.

Teitl
Nodwch y teitl yr ydych yn ei ddefnyddio fel rheol. Er enghraifft: Dr, Miss, Ms, Mr, Mrs, Athro. Peidiwch â'i adael yn wag.

Dyddiad geni
Mae eich dyddiad geni cywir gyda'ch rhif cais yn ein galluogi i nodi eich cofnod ymgeisio yn rhwydd.

Cenedl
Defnyddiwch y lle a ddarparwyd i nodi eich cenedl. Os oes gennych chi ail genedligrwydd neu genedligrwydd deuol, defnyddiwch y gofod yma i enwi'ch ail genedligrwydd.
*Sylwch: os bydd gofn i chi gael fisa, gwnewch yn siwr eich bod yn enwi, fel eich cenedligrwydd cyntaf, y wlad y byddwch chi'n defnyddio'i phasbort wrth wneud eich cais am fisa. Bydd y Briysgol yn defnyddio'ch cenedligrwydd cyntaf ar ohebiaeth ynglyn a'ch fisa.

Gwlad enedigol
Nodwch enw'r wlad lle cawsoch eich geni.

Y wlad yr ydych yn byw ynddi
Nodwch y wlad yr ydych wedi bod yn byw ynddi, ac eithrio cyfnodau o absenoldeb dros dro, er 1 Medi 2001. At ddiben y cwestiwn hwn, mae'r amser a dreuliwyd yn astudio i ffwrdd o'ch prif wlad yn cael ei ddiffinio fel dros dro. Os oes gennych ganiatâd penagored i aros yn y DU, anfonwch dystiolaeth gyda'ch dogfennau cefnogi.

2.1 Cyfeiriad
Cyfeiriad cartref (parhaol)
Defnyddir y cyfeiriad hwn ar gyfer pob gohebiaeth atoch am eich cais oni bai eich bod yn nodi cyfeiriad gohebu. Dylech gynnwys eich rhif ffôn, rhif ffôn symudol os yn berthnasol (ymgeiswyr o'r DU yn unig) a chyfeiriad e-bost dilys yr ydych yn ei ddefnyddio'n rheolaidd. E-bost yw'r dull gorau o gysylltu â chi mewn perthynas â'ch cais fel rheol. Os byddwch yn newid cyfeiriad neu unrhyw fanylion cysylltu eraill, rhowch wybod i'r Gofrestrfa yn syth drwy anfon neges e-bost at **admissions@caerdydd.ac.uk**

Cyfeiriad gohebu
Nodwch gyfeiriad cysylltu os ydych chi'n debygol o fod i ffwrdd o gartref am gyfnod hir e.e. yn astudio. Nodwch y dyddiadau y byddwch yn y cyfeiriad hwn/rhif ffôn cyswllt/cyfeiriad e-bost. Os ydych chi'n darparu cyfeiriad gohebu, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob gohebiaeth atoch am eich cais rhwng y dyddiadau yr ydych yn eu nodi. Os byddwch yn newid cyfeiriad, rhowch wybod i'r Gofrestrfa yn syth.

2.2 Euogfarnau Troseddol

Os dedfrydwyd chi'n euog o drosedd berthnasol nodwch X yn y bocs. Troseddau perthnasol yw'r rhai yn erbyn person, boed o natur dreisgar neu rywiol, a throseddau sy'n cynnwys cyflenwi sylweddau neu gyffuriau rheoledig yn anghyfreithlon pan fo'r euogfarn yn ymwneud â delio neu fasnachu mewn cyffuriau. Nid yw dedfrydau sydd wedi dod i ben (yn ôl diffiniad Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974) yn cael eu hystyried yn berthnasol ac ni ddylech eu datgelu.

Fodd bynnag, os ydych yn ymgeisio am gyrsiau addysgu, iechyd, gwaith cymdeithasol a chyrsiau sy'n cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed, dylech ddweud wrthym am unrhyw droseddau y dedfrydwyd chi'n euog ohonynt, yn cynnwys dedfrydau a ddaeth i ben a rhybuddion (yn cynnwys rhybuddion llafar) a gorchmynion rhwymo. Ar gyfer y cyrsiau hyn, efallai y bydd angen 'dogfen ddatgelu fanwl' gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol neu Wasanaeth Datgelu Swyddfa Cofnodion Troseddol yr Alban. Os nad ydych yn siwr a ddylech ddweud wrthym am euogfarn blaenorol, dylech gael rhagor o gyngor gan eich Canolfan Cyngor ar Bopeth neu wasanaeth prawf lleol, neu gan NACRO (Cymdeithas Genedlaethol er Gofal ac Ailsefydlu Troseddwyr). Gallwch gysylltu â chyfreithiwr hefyd, ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am gyngor cyfreithiol. Yn ddiweddarach, efallai y bydd gofyn i chi roi rhagor o fanylion.

Sylwer: Gwiriad Cofnod Troseddol
Gall mynediad i gyrsiau Ôl-raddedig ddibynnu ar Orchymun (Eithriad) Deddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) Adran 4 (2) 1975 a chanllawiau Chylchlythyr HV(88)9 AIGC yn ymwneud ag amddiffyn plant a gwiriadau'r heddlu. Felly, os ydych yn bwriadu gwneud cais, efallai bydd angen i chi fodloni proses Datgeliad Swyddfa Cofnodion Troseddol. Rhoddir yr Ymwrthodiad ar y ffurflen gais. Os oes angen cliriad Swyddfa Cofnodion Troseddol i ddilyn y cwrs, bydd y ffurfl enni perthnasol yn cael eu darparu ar gyfer yr ymgeiswyr.

Rhan 3 Cymwysterau Academaidd a Phroffesiynol

Mae'n angenrheidiol i bob ymgeisydd gynnwys copïau o'u trawsgrifiadau/tystysgrifau gradd, wedi eu cyfieithu, lle bo angen, i'r Saesneg. Bydd methu â gwneud hynny yn arwain at oedi wrth brosesu eich cais.

3.1. Cymwysterau academaidd cyfredol/diweddaraf
Rhowch fanylion am eich gradd israddedig neu ôl-raddedig ddiweddaraf - neu'r radd israddedig neu ôlraddedig yr ydych wrthi'n ei hastudio ar hyn o bryd. Mae'n bwysig datgan y cymhwyster a gafwyd

(yn cynnwys dosbarth y radd a ddyfarnwyd os yn berthnasol), pwnc/pynciau'r radd, dyddiad dyfarnu'r radd neu ddyddiad y canlyniadau, hyd y cwrs ac a oedd eich astudiaethau'n llawn amser, rhan-amser neu'n gwrs dysgu o bell. Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad llawn hefyd, yn cynnwys y wlad a'r brifysgol yr ydych/buoch yn astudio ynddi.

3.2. Cymwysterau academaidd eraill a gwblhawyd
Rhestrwch hefyd unrhyw gymwysterau academaidd eraill a enillwyd gennych ar ôl 16 oed yn y llefydd a ddarparwyd. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid derbyn yn cymryd sylw o'r cymwysterau academaidd a gawsoch mewn sefydliadau addysg uwch (prifysgol neu goleg), ond mae rhai ysgolion academaidd yn gofyn am dystiolaeth o gymwysterau a enillwyd cyn hynny, fel lefel A, Diploma, HND, TGAU ac ati. Os nad ydych yn siwr pa fanylion sydd eu hangen ar yr Ysgol yr hoffech astudio ynddi, cysylltwch â'r Ysgol yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r manylion yn y Prosbectws Ôl-raddedig.

3.3. Cymwysterau proffesi ynol
Rhowch fanylion unrhyw gymwysterau proffesiynol (gyda dyddiadau) sy'n berthnasol i'ch cais.

3.4 Aelodaeth o Sefydliadau Proffesiynol
Os ydych chi'n aelod o sefydliad proffesiynol e.e. GMC, UKCC, rhowch enw'r sefydliad, dyddiad ymaelodi, lefel eich aelodaeth, rhif cofrestru a dyddiad dod i ben os yn berthnasol.

Rhan 4 Gwybodaeth am Gyflogaeth

Rhowch fanylion eich cyflogaeth bresennol a/neu unrhyw brofiad cyflogaeth blaenorol sy'n berthnasol i'ch cais. Mae'n rhaid rhestru#ch cyflogaeth mwyaf diweddar gyntaf. Rhowch fanylion cyswllt eich cyflogwr hefyd. Gall y rhain gael eu defnyddio gan y Brifysgol i wirio'r manylion sydd wedi'u darparu ar eich ffurflen gais.

Rhan 5 Ariannu

Sut ydych chi'n bwriadu ariannu eich astudiaethau?
Nodwch sut ydych chi'n bwriadu talu am y cwrs. Gall hyn newid yn ddiweddarach yn dibynnu ar unrhyw gais am ysgoloriaeth. Nid yw'n gytundeb sy'n eich rhwymo, ac ni fydd yn effeithio ar eich cais. Dylech gynnwys enw unrhyw ysgoloriaethau yr ydych wedi gwneud cais neu'n bwriadu gwneud cais am danynt. Nid oes rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'ch sefyllfa ariannol ar hyn o bryd. Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig nifer cyfyngedig o ysgoloriaethau ymchwil. Mae'r rhain yn gystadleuol iawn a byddai'n ddoeth i chi edrych ar ddulliau eraill o ariannu hefyd. I gael rhagor o wybodaeth am ariannu, ewch i **www.caerdydd.ac.uk/postgraduate.**

Ni fydd unrhyw gais am arian a restrir yn y tudalennau hyn yn cael ei ystyried os nad ydych wedi cael cynnig pendant am le astudio. Mae'n bwysig felly eich bod yn ymgeisio am eich rhaglen ôl-raddedig ddewisedig ymhell cyn y dyddiad cau a nodir gan yr asiantaeth ariannu ar gyfer cais am arian. Cynghorir myfyrwyr tramor i gysylltu â'r Cyngor Prydeinig i gael gwybodaeth am gyfleoedd ariannu yn eu gwlad. Mae manylion cysylltu ar y wefan: **www.britishcouncil.org/learning-funding-yourstudies.htm**

Rhan 6 Ymgeiswyr nad ydynt o'r DU ond sy'n byw yn y DU ar hyn o bryd

Nodwch a ydych wedi cael caniatâd gan y Swyddfa Gartref i fyw a gweithio yn y DU heb gyfyngiadau amser ac amgaewch gopïau o ohebiaeth berthnasol gyda'r Swyddfa Gartref a chopïau o dudalennau priodol eich pasport. Dywedwch hefyd pryd ddaethoch chi i'r DU gyntaf a pham, ynghyd â'ch statws mewnfudo cyfredol. Yn olaf, dylech ddatgan ym mha wlad mae eich rhieni neu eich teulu yn byw ar hyn o bryd.

Rhan 7 Datganiad Personol

Dyma'ch cyfle i ddweud wrth y Tiwtor Derbyn pam eich bod am ddilyn y rhaglen ôl-raddedig arfaethedig a pha fudd yr ydych yn gobeithio ei gael ohoni. Dylech ddefnyddio'r rhan hon i roi unrhyw wybodaeth a fyddai'n cefnogi eich cais am gael eich derbyn, fel sgiliau, profiad a nodau gyrfa

perthnasol. **Dylai ymgeiswyr am raglenni ymchwil gwblhau cynnig ymchwil ar wahân* hefyd y dylid ei ddatblygu ar y cyd â'r goruchwyliwr arfaethedig.** Os penderfynwyd eisoes ar y cynnig (h.y. bod y goruchwylwyr wedi hysbysebu a bod ganddynt brosiect dan sylw'n barod), dylid amgáu'r copi.

***Cynnig Ymchwil (i ymgeiswyr Ymchwil yn unig)**
Rhaid i ymgeiswyr rhaglenni Ymchwil, gan gynnwys ymgeiswyr doethuriaethau proffesiynol, hefyd gwblhau Cynnig Ymchwil ar wahân. Dylai gynnwys oddeutu **500** gair, fod wedi'i deipio, a'i gyflwyno gyda'r ffurflen gais hon. Ei ddiben, yn gyntaf oll, yw cadarnhau bod gan yr ymgeisydd brosiect ymchwiliadwy mewn golwg. Yn ail, bydd yn sicrhau'r Ysgol fod gan yr ymgeisydd yr arbenigedd sydd ei angen i roi goruchwyliaeth ddigonol.
Argymhellir y dylai'r cynnig fod wedi'i drefnu i gynnwys rhai (neu bob un) o'r canlynol: teitl posibl ar gyfer yr ymchwil arfaethedig; nodau ac amcanion yr ymchwil; amlinelliad o'r fethodoleg/dyluniad arfaethedig, gan gynnwys gwybodaeth am sampl yr ymchwil a'r dulliau casglu data; rhestr o gwestiynau y bydd yr ymchwil yn eu hateb; llyfryddiaeth enghreifftiol yn ogystal â chrynodeb byr o'r ymchwil sydd eisoes wedi'i gynnal yn y maes hwn. Ar frig y Cynnig, dylai'r ymgeiswyr ysgrifennu eu henwau, i ba ysgol y maent wedi cyflwyno'r cais, yn ogystal â'u gradd arfaethedig.

Rhan 8 Cymhwysedd Cymraeg/Saesneg

Nodwch eich mamiaith (eich iaith frodorol) yn y bocsys a ddarparwyd. Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich mamiaith, nodwch lefel eich gallu yn Saesneg trwy restru eich cymwysterau yn yr Iaith Saesneg a'r radd/sgôr a gawsoch. Nodwch hefyd bod yn rhaid cyrraedd safon foddhaol mewn cymhwyster cymeradwy cyn gallu gwneud cynnig di-amod am gwrs ôl-raddedig. Rhowch dystiolaeth hefyd eich bod wedi ennill y cymwysterau uchod (e.e. llungopi o dystysgrif).

Rhan 9 Geirda Cyfrinachol

Dylech ddarparu enwau a chyfeiriadau dau unigolyn (canolwyr) sy'n gwybod am eich gallu academaidd neu broffesiynol i gefnogi eich cais. Os ydych chi'n fyfyriwr ar hyn o bryd neu newydd gwblhau eich astudiaethau, dylai un o'r canolwyr fod yn ddarlithydd neu'n athro yn eich prifysgol.

9.1 Geirda
Dylid rhoi geirda mewn amlenni wedi'u selio a'u llofnodi a/neu eu stampio'n swyddogol ar draws y sêl. Dylech anfon y ffurflenni/llythyrau geirda gyda'r cais hwn. Gallwch ddefnyddio'r ffurflenni geirda yn y Prosbectws Ôl-raddedig hefyd (gellir eu dadlwytho o'r wefan **www.caerdydd.ac.uk/courses/postgraduate/apply)** neu gellir teipio'r llythyrau yn newis arddull y canolwr. Lle bo'n bosib, dylid stampio llythyrau'n swyddogol a nodi cyfeiriad post, rhif ffôn, rhif ffacs a chyfeiriad e-bost y canolwr. Os yw'r canolwr yn dewis teipio ei lythyr ei hun, rhowch gopi o ffurflen adroddiad canolwyr iddynt gan fod hwn yn cynnwys nodiadau cyfarwyddyd i'r canolwr. I'n helpu i gyfateb eich dogfennau gyda'ch cais, gofalwch fod y geirda yn cynnwys eich enw fel mae'n ymddangos ar eich cais. Nodwch na fyddwn yn ystyried eich cais heb eirda.

Adran 10 Sut cawsoch wybod am Brifysgol Caerdydd

Defnyddiwch y bocsys i nodi sut y clywsoch chi am gyfleoedd astudio ym Mhrifysgol Caerdydd – ticiwch bob bocs perthnasol.

Adran11 Datganiad

Mae'n rhaid i ymgeiswyr roi tic yn y blwch Datganiad i:
- Gadarnhau bod y wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen gais ar-lein yn wir, yn gyflawn ac yn gywir; a chadarnhau bod unrhyw waith sy'n cael ei gyflwyno i ategu'r cais yn eiddo i chi yn gyfan gwbl.
- Rhoi caniatâd i Diwtoriaid Derbyn a staff eraill perthnasol sy'n gyfrifol am recriwtio a derbyn weld y wybodaeth yn y cais.
- Rhoi caniatâd i'r Brifysgol gadw eu manylion personol am gyfnod penodol. Drwy wneud hyn, mae'r ymgeisydd yn derbyn y gall gwybodaeth o'r fath gael ei defnyddio a'i rhannu gydag UCAS neu gyrff perthnasol eraill at ddiben gwirio manylion adnabod, cymwysterau neu eirdaon yr ymgeisydd.

Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Gwybodaeth y gofynnir amdani gan Ymgeiswyr Preswyl (Cartref – statws ffïoedd) yn y Deyrnas Unedig yn Unig
Dymuna Prifysgol Caerdydd sicrhau bod amrywiaeth gymdeithasol a'i hamcanion ehangu mynediad yn cael eu hadlewyrchu yn y boblogaeth myfyrwyr ar bob lefel astudio – boed israddedig, ôl-raddedig neu addysg barhaus. Ar hyn o bryd, mae data economaidd-gymdeithasol yn cael ei gasglu drwy broses UCAS ar gyfer ymgeiswyr israddedig yn unig. Hoffai Prifysgol Caerdydd ymestyn y broses hon i'r rhai sy'n gwneud cais yn uniongyrchol i'r Brifysgol. Bydd hyn yn galluogi ymgymryd â dadansoddiadau ystadegol er mwyn nodi unrhyw grwpiau sydd efallai'n cael eu tangynrychioli yng nghymuned myfyrwyr y Brifysgol ac yn galluogi sefydlu'r mecanweithiau cymorth y gellid eu rhoi ar waith i annog y myfyrwyr hynny i ystyried gwneud cais i Brifysgol Caerdydd. Er bod darparu'r wybodaeth hon yn ddewisol, buasem yn ddiolchgar am eich cymorth yn y broses hon.

Bydd y wybodaeth a roddir gennych isod fel rhan o'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb yn cael ei datgysylltu o'ch cais ac ni fydd ar gael i'r staff sy'n cymryd rhan mewn penderfyniadau dewis. Petaech yn cael eich derbyn i'ch cwrs, bydd y wybodaeth hon yn llunio rhan o'ch cofnod myfyriwr a bydd yn parhau i gael ei defnyddio at ddibenion monitro drwy gydol eich astudiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd defnydd o'r fath yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1998.

Categorïau Galwedigaethol

<u>Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch</u>
Cyflogi eraill mewn mentrau **sy'n cyflogi 25 o bobl neu fwy**.
Cynllunio a goruchwylio gweithrediadau ar ran y cyflogwr – yn meddu ar wybodaeth a phrofiad sylweddol.
Galwedigaethau proffesiynol megis darlithydd prifysgol, cyfrifydd, cyfreithiwr, ymarferwr meddygol, gwyddonydd.

<u>Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol is</u>
Cynllunio a goruchwylio gweithrediadau **o dan gyfarwyddyd rheolwyr uwch**
(galwedigaethau megis rheolwr banc, rheolwr ty bwyta, rheolwr manwerthu).

<u>Galwedigaethau canolradd</u>
Galwedigaethau clercaidd, gwerthu a thechnegol **nad ydynt yn ymwneud â phwerau cynllunio neu oruchwylio cyffredinol** (galwedigaethau megis swyddog clercaidd, swyddog ysgrifenyddol, nyrs gynorthwyol).

<u>Cyflogwyr bach a gweithwyr eu cyfrifon eu hunain</u>
Cyflogi llai na 25 o bobl ac yn gwneud yr holl neu'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau mentro a rheoli.
Yn hunangyflogedig ac yn cynnig unrhyw fasnach neu wasanaeth personol (nad yw'n broffesiynol) a heb unrhyw weithwyr cyflogedig.

<u>Gweithrediadau goruchwylio a thechnegol is</u>
Goruchwyliaeth uniongyrchol a ffurfiol **dros eraill** yn gweithio mewn galwedigaethau technegol, rhannol gyffredin neu gyffredin is, e.e. fforman neu oruchwyliwr.
Galwedigaethau crefft dechnegol a galwedigaethau gweithredwyr proses dechnegol is (galwedigaethau megis mecanydd, plymwr, gwneuthurwr offer, trydanwr, garddwr).

<u>Galwedigaethau rhannol gyffredin</u>
Galwedigaethau gwerthu, gwasanaethu, technegol, amaethyddol, clercaidd a gofal plant gyda thymor byr a chyfnewid arian yn uniongyrchol am ymdrech a l**le mae'r gwaith angen elfennau o ddoethineb gan y gweithiwr** (galwedigaethau megis gweithiwr post, gweithredydd peiriant, gofalwr, croesawydd, cynorthwy-ydd gwerthu).

<u>Galwedigaethau cyffredin</u>

Yn debyg i alwedigaethau rhannol gyffredin, ond gyda chontract llafur sylfaenol a **lle mae'r angen lleiaf am ddoethineb gan y gweithiwr** (galwedigaethau megis gyrrwr fan, glanhawr, porthor, labrwr, gweinydd/gweinyddes).

Rhestr Wirio

Gofalwch eich bod yn cynnwys y canlynol:
ÿ Ffurflen gais wedi'i chwblhau, ei llofnodi a'i dyddio
ÿ 2 ffurflen adroddiad/llythyr geirda gan ganolwyr a manylion cysylltu'r ddau ganolwr
ÿ Llungopïau o unrhyw ddogfennaeth gefnogi berthnasol (e.e. tystysgrif gradd, cofnodion canlyniadau, canlyniadau profion TOEFL)
ÿ Ffurflen Monitro Cydraddoldeb
ÿ Cynnig Ymchwil (ymgeiswyr ymchwil yn unig)